# Arweiniad atadol ar gyfer arolygu llythrennedd Cymraeg a Saesneg mewn ysgolion

Medi 2021

# Arweiniad atodol ar gyfer arolygu llythrennedd Cymraeg a Saesneg mewn ysgolion

## Arweiniad atodol ar gyfer arolygu llythrennedd Cymraeg a Saesneg mewn ysgolion

**Beth yw'r diben?**
Darparu arweiniad i arolygwyr ar gyfer arfarnu llythrennedd Cymraeg a Saesneg mewn ysgolion

**Ar gyfer pwy y mae wedi ei fwriadu?**
Ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol a lleoliadau nas cynhelir

**Pryd y dylid dechrau defnyddio'r arweiniad?**
Medi 2021

## CYNNWYS


**Am y ddogfen**
Copyright statement
Arweiniad atodol

**Arweiniad**
Arolygu llythrennedd
Yn ystod yr arolygiad
Dogfen A: Cwestiynau enghreifftiol ar gyfer gwrando ar ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen
Dogfen B: Cwestiynau enghreifftiol ar gyfer gwrando ar ddisgyblion yng nghyfnodau allweddol 2 a 3
Dogfen C: Sbardunau i'w hystyried wrth werthuso effaith rhaglenni ymyrraeth llythrennedd

# Am y ddogfen

## Copyright statement

## Arweiniad atodol

# Copyright statement

**The purpose of Estyn is to inspect quality and standards in education and training in Wales. Estyn is responsible for inspecting:**

- nursery schools and settings that are maintained by, or receive funding from, local authorities
- primary schools
- secondary schools
- special schools
- pupil referral units
- all-age schools
- independent schools
- further education
- independent specialist colleges
- adult learning in the community
- local authority education services for children and young people
- teacher education and training
- Welsh for adults
- work-based learning
- learning in the justice sector

Estyn also:

- reports to Senedd Cymru and provides advice on quality and standards in education and training in Wales to the Welsh Government and others
- makes public good practice based on inspection evidence

Every possible care has been taken to ensure that the information in this document is accurate at the time of going to press. Any enquiries or comments regarding this document/publication should be addressed to:

Publication Section
Estyn
Anchor Court
Keen Road
Cardiff
CF24 5JW or by email to publications@estyn.gov.wales

This and other Estyn publications are available on our website: www.estyn.gov.wales

**This document has been translated by Trosol (English to Welsh).**

**© Crown Copyright 2021**: This report may be re-used free of charge in any format or medium provided that it is re-used accurately and not used in a misleading context. The material must be acknowledged as Crown copyright and the title of the document/publication specified.

# Arweiniad atodol

Mae ein harweiniad arolygu yn esbonio **Beth** rydym ni'n ei arolygu a **Sut** rydym ni'n arolygu. Fodd bynnag, rydym yn llunio **arweiniad atodol** hefyd i helpu arolygwyr i ystyried agweddau pellach penodol ar addysg a hyfforddiant.

Mae'r dogfennau arweiniad atodol yn amlinellu rhai egwyddorion, ystyriaethau ac adnoddau allweddol ar gyfer arolygwyr. Maent yn ymwneud â phob sector y mae Estyn yn ei arolygu, oni bai bod y dogfennau'n datgan eu bod ar gyfer sector penodol. Maent yn ymhelaethu ar agweddau penodol ar addysg/hyfforddiant (e.e. arolygu llythrennedd) neu ffyrdd o gynnal arolygiadau (e.e. defnyddio teithiau dysgu) neu drefniadau arolygu penodol (e.e. arweiniad ar arolygu ysgolion eglwysig).

Nid nod y dogfennau arweiniad atodol yw bod yn gynhwysfawr. Nid yw'n ofynnol i arolygwyr weithio trwyddynt yn drwyadl wrth ymdrin ag unrhyw agwedd benodol ar arolygiad. Fodd bynnag, gallent fod yn ddefnyddiol i arolygwyr wrth iddynt ymateb i gwestiynau penodol sy'n dod i'r amlwg yn ystod arolygiadau neu pan fyddant yn dymuno myfyrio neu ymchwilio ymhellach.

Gallai'r dogfennau arweiniad atodol helpu darparwyr i gael dealltwriaeth o drefniadau arolygu Estyn hefyd. Gallent fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr hefyd o ran arfarnu agweddau penodol ar eu darpariaeth eu hunain.

Mae ein gwaith arolygu wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- Bydd arolygwyr yn mynd ati i arolygu'n gadarnhaol, i sicrhau mai'r profiad dysgu proffesiynol gorau posibl fydd hwn ar gyfer y staff ym mhob darparwr
- Bydd arolygwyr yn arolygu ar sail dull sy'n cael ei arwain gan y dysgwr
- Bydd arolygwyr bob amser yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu
- Bydd arolygwyr yn chwilio am arfer arloesol, graff
- Bydd arolygwyr yn teilwra gweithgareddau'r arolygiad yn unol â'r amgylchiadau ym mhob darparwr, cyhyd â phosibl
- Bydd arolygwyr yn hyblyg ac yn ymateb i ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, ac yn defnyddio ystod gynyddol yr adnoddau a dulliau arolygu sydd ar gael
- Bydd arolygwyr yn ystyried popeth yn y fframwaith arolygu, ond byddant yn adrodd ar y cryfderau a'r gwendidau allweddol yn unig ym mhob darparwr

# Arweiniad

**Arolygu llythrennedd**

**Yn ystod yr arolygiad**

**Dogfen A: Cwestiynau enghreifftiol ar gyfer gwrando ar ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen**

**Dogfen B: Cwestiynau enghreifftiol ar gyfer gwrando ar ddisgyblion yng nghyfnodau allweddol 2 a 3**

**Dogfen C: Sbardunau i'w hystyried wrth werthuso effaith rhaglenni ymyrraeth llythrennedd**

# Arolygu llythrennedd

Mae llythrennedd yn fedr hanfodol sy'n galluogi disgyblion i ddeall iaith ysgrifenedig ac iaith lafar, dehongli'r hyn sydd wedi cael ei ysgrifennu neu'i ddweud, a llunio casgliadau o dystiolaeth. Mae llythrennedd yn cyfeirio at y gallu i gyfathrebu'n rhugl, yn gymhellol ac yn berswadiol hefyd.

Y tasgau allweddol ar gyfer arolygwyr yw gwerthuso:

- pa mor dda y mae disgyblion yn datblygu'r medrau llythrennedd sydd eu hangen arnynt i elwa ar y cwricwlwm cyfan a dysgu'n effeithiol
- pa mor dda y mae addysgu a phrofiadau dysgu yn datblygu medrau llythrennedd disgyblion
- ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth o ran cydlynu'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion

Dylai arolygwyr adrodd ar fedrau llythrennedd disgyblion ym mhob arolygiad, a phan fo'n briodol, adrodd ar unrhyw ddeilliannau neu ddangosyddion sy'n ymwneud â'r medrau hyn.

- Bwriad yr arweiniad canlynol yw cynorthwyo arolygwyr i werthuso ac adrodd ar safonau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu disgyblion ac ar eu gallu i ddefnyddio eu medrau llythrennedd mewn gwaith ar draws y cwricwlwm. Er bod yr arweiniad yn cynnwys gwybodaeth am ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer llythrennedd, dylai arolygwyr gofio y dylai'r prif ffocws fod ar yr effaith a gaiff ar ddysgu a chynnydd disgyblion. Yn ychwanegol, wrth arolygu'r Gymraeg, dylai arolygwyr gyfeirio at yr Arweiniad Atodol: Y Gymraeg mewn lleoliadau nas cynhelir, ysgolion ac UCDau cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg.

# Casglu ac adolygu tystiolaeth arolygu

Bydd y tîm yn cynllunio'r arolygiad er mwyn iddynt allu casglu tystiolaeth am lythrennedd o fewn y pum maes arolygu. Bydd yr Arolygydd Cofnodol yn sicrhau bod gan y tîm ddigon o amser i adolygu'r dystiolaeth allweddol sydd ei hangen arno i lunio ei farnau. Dyma'r prif ffurfiau tystiolaeth:

- samplau o waith disgyblion mewn gwaith iaith, llythrennedd a chyfathrebu a

Chymraeg / Saesneg (yn cynnwys gwaith sy'n cael ei gwblhau ar-lein)

- samplau o waith disgyblion o feysydd dysgu a phynciau eraill
- gwrando ar weithgareddau disgyblion, er enghraifft gwrando arnynt yn darllen ar goedd ac yn trafod testunau, trafodaethau gyda nhw am eu gwaith llythrennedd
- trafodaethau gyda staff, arweinwyr, llywodraethwyr, rhieni a phobl eraill
- arsylwi addysgu a gweithgareddau eraill, gan gynnwys tystiolaeth a gasglwyd trwy deithiau dysgu sy'n canolbwyntio ar agwedd benodol ar waith llythrennedd, er enghraifft siarad â disgyblion am eu darllen
- tystiolaeth ddogfennol, gan gynnwys gwybodaeth am ddysgu a chynnydd disgyblion (fel dadansoddi sgorau darllen safonedig grwpiau penodol, a chynnydd disgyblion ar raglenni ymyrraeth llythrennedd), a gwerthusiadau o gynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu llythrennedd

Bydd y tîm yn defnyddio arsylwadau uniongyrchol o waith disgyblion, ble bynnag y bo modd, i gasglu tystiolaeth i gefnogi ei farnau. Gallai arolygwyr ddewis sampl ychwanegol o waith disgyblion, os bydd angen, i ymestyn eu hymchwiliad mewn agwedd benodol ar lythrennedd. Byddant yn arsylwi addysgu a gweithgareddau eraill.

Mae llais disgyblion yn ffynhonnell dystiolaeth allweddol ar gyfer arolygwyr. Bydd trafodaethau gyda disgyblion yn rhoi cyfle i archwilio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u gwaith. Bydd hefyd yn helpu arolygwyr i gael amcan o ba mor dda y mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion ac yn cyfrannu at eu cynnydd.

Dylai ysgolion drefnu bod gwybodaeth ar gael i'r tîm arolygu am y safonau llythrennedd a gyflawnir gan ddisgyblion, yn enwedig canlyniadau unrhyw brofion sgrinio cychwynnol ac unrhyw asesiadau eraill. Bydd hyn yn helpu arolygwyr i werthuso cynnydd disgyblion, llunio barn am y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni o gymharu â'u mannau cychwyn, a'r ffordd y mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth o asesu i lywio eu cynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol.

Bydd angen i'r tîm ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid am yr ysgol a phrofi dilysrwydd y safbwyntiau hynny yn ystod yr arolygiad.

**Pwyntiau i'w hystyried:**

- A yw disgyblion yn amgyffred ystyr, yn datblygu dealltwriaeth ac yn ymestyn eu geirfa trwy wrando ar bobl eraill?
- A yw disgyblion yn dysgu'r wybodaeth a'r medrau sy'n cefnogi cyfathrebu effeithiol ar lafar mewn ystod o gyd-destunau a lleoliadau?
- A yw disgyblion (mewn cyd-destunau cyfrwng Cymraeg) yn defnyddio medrau

cyfryngu i gefnogi cyfathrebu effeithiol?

- A yw disgyblion yn elwa ar destunau sy’n ddigon cyfoethog a sylweddol i ennyn eu diddordeb yn ddeallusol ac yn emosiynol?
- A oes tystiolaeth o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen trwy dasgau wedi eu seilio ar: ddealltwriaeth lythrennol a chasgliadol, gwerthuso a gwerthfawrogi, adalw gwybodaeth, dadansoddi a chyfosod?
- A yw disgyblion (mewn cyd-destunau cyfrwng Cymraeg) yn defnyddio eu medrau trawsieithu, er enghraifft i ddarllen yn Saesneg a chyfosod eu canfyddiadau yn Gymraeg?
- A yw disgyblion yn llunio rhagdybiaethau, yn crynhoi ac yn llunio casgliadau o’u darllen?
- A yw disgyblion yn ysgrifennu ar draws y cwricwlwm i’r un safonau y maent yn eu cyflawni mewn sesiynau iaith, llythrennedd a chyfathrebu neu wersi Cymraeg / Saesneg?
- A ydynt yn ysgrifennu ar draws ystod o genres ar gyfer gwahanol ddibenion a chynulleidfaoedd, gan strwythuro eu gwaith yn briodol?
- A ydynt yn cynllunio, yn ailddrafftio ac yn golygu eu gwaith yn effeithiol?
- A yw sillafu ac atalnodi yn briodol i oedran?
- A yw llawysgrifen a chyflwyniad yn glir?
- A yw gweithgareddau dysgu yn fwriadus ac a ydynt yn adeiladu’n llwyddiannus ar beth mae disgyblion yn ei wybod ac yn gallu ei wneud?
- A oes tystiolaeth glir o her briodol i’r holl ddisgyblion?
- A yw adborth yn helpu disgyblion i wella eu medrau llythrennedd?

# Yn ystod yr arolygiad

## MA1 Dysgu

Dylai arolygwyr adrodd yn glir ar ba mor dda y mae disgyblion yn gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu wrth werthuso datblygiad eu gwybodaeth, medrau a chyflawniadau mewn llythrennedd.  Dylent ystyried i ba raddau y mae disgyblion yn meddu ar y medrau sydd eu hangen i elwa ar y cwricwlwm cyfan a pha mor dda y mae'r cwricwlwm ehangach ei hun yn datblygu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu disgyblion, yn briodol i'w hoedrannau a'u mannau cychwyn.

Wrth werthuso cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion, er enghraifft y rhai sydd â'r Gymraeg / Saesneg yn iaith ychwanegol, y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n fwy abl, dylai arolygwyr ystyried p'un a ydynt yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent.  Mae'n bwysig fod arolygwyr yn ystyried lefel yr her y mae disgyblion yn ei hwynebu a'u dysgu blaenorol, wrth ddefnyddio eu medrau llythrennedd.

Dylai arolygwyr nodi sefyllfaoedd lle caiff disgyblion anhawster â'u medrau llythrennedd, a ble mae hyn yn rhwystro eu dysgu ar draws y cwricwlwm.  Bydd angen i arolygwyr nodi achosion posibl hyn, er enghraifft anallu disgyblion i wahaniaethu rhwng seiniau, eu diffyg ymwybyddiaeth ffonemig, geirfa gyfyngedig a gwybodaeth gyfyngedig am strategaethau ar gyfer sillafu.

**Gwrando a siarad**

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae disgyblion:

yn gwrando i ddeall, galw i gof, dehongli'r hyn y maent yn ei glywed, ac yn dod i gasgliad ynglŷn ag ef

yn gwahaniaethu seiniau, ac yn datblygu ac addasu eu geirfa a'u strwythur brawddeg wrth siarad (trwy wrando)

- yn gwrando i ddatblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau a syniadau allweddol, ac yn cymhwyso'r ddealltwriaeth hon i sefyllfaoedd newydd
- yn cymryd eu tro mewn sgwrs, yn dilyn y testun, ac yn rheoli eu cyfraniadau a rhyngweithio yn briodol
- yn gwrando ar bobl eraill (er enghraifft i gael gwahanol safbwyntiau a syniadau) ac yn defnyddio technegau i gofio prif bwyntiau eu sgwrs (er enghraifft gwneud

nodiadau, crynhoi)

- yn ymateb yn briodol i bobl eraill mewn ffordd sy’n gweddu i’r pwnc, y cyd-destun, y gynulleidfa a’r diben (er enghraifft herio’r hyn sy’n cael ei glywed ar sail rheswm, tystiolaeth neu ddadl i lunio eu casgliadau eu hunain)
- yn gofyn ac yn ateb cwestiynau i egluro eu dealltwriaeth o’r hyn sydd wedi cael ei glywed, ac yn ymateb i bobl eraill trwy roi sylwadau ac awgrymiadau (er enghraifft i adeiladu ar farn pobl eraill mewn gwaith ar y cyd)
- yn ynganu geiriau’n gywir ac yn siarad yn glir mewn cywair priodol
- yn defnyddio strwythurau brawddeg yn gywir, ac yn gwneud dewisiadau priodol o ran geirfa
- (mewn cyd-destunau cyfrwng Cymraeg) yn cyfleu ystyr o un person i un arall, yn yr un iaith neu o un iaith i un arall, er enghraifft trwy drosglwyddo, esbonio neu gyfieithu gwybodaeth neu syniadau?
- yn cyfleu syniadau a gwybodaeth yn fanwl gywir, yn effeithiol ac yn hyderus (er enghraifft yn pwysleisio pwyntiau allweddol, gan roi esboniad yn ei drefn)
- yn amrywio tôn, cyflymdra eu siarad ac yn taflu eu llais i weddu i’r gynulleidfa a’r diben
- yn dangos ymwybyddiaeth o’r gwrandäwr ac yn ystyried lefel dealltwriaeth y gynulleidfa (er enghraifft trwy dalu sylw i osgo, ystum, mynegiant yr wyneb, cyswllt llygad a defnyddio technegau rhethregol)
- yn ymgymryd ag ystod o gyfrifoldebau i strwythuro a datblygu trafodaethau grŵp (er enghraifft cynnal ffocws ar y dasg, rheoli amser, crynhoi)
- yn archwilio eu syniadau eu hunain a syniadau pobl eraill yn feirniadol ac yn sensitif
- yn cynnal rôl neu safbwynt argyhoeddiadol

**Darllen**

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae disgyblion:

- yn datblygu medrau cyn-darllen ac ymddygiadau darllen cynnar fel sylfeini hanfodol ar gyfer darllen (er enghraifft gwrando ar stori, trin a thrafod llyfrau fel darllenydd, canu caneuon a rhigymau, ac adnabod eu henwau eu hunain)
- yn datblygu dealltwriaeth ffonolegol ac ymwybyddiaeth ffonemig
- yn darllen ystod eang o destunau ar goedd â mynegiant, yn rhoi sylw i atalnodi, ac yn amrywio tonyddiaeth, llais a chyflymdra i gyfleu ystyr
- yn dal ati i ganolbwyntio i ddarllen testunau yn annibynnol, yn cynnwys nofelau cyflawn
- yn defnyddio ystod o strategaethau i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan (er enghraifft gwybodaeth ffonemig neu ffonolegol, bonion geiriau, teuluoedd geiriau, strwythur brawddeg, trefniadaeth testun, gwybodaeth flaenorol)
- yn defnyddio eu darllen eu hunain, a bod rhywun yn darllen iddynt, i ddatblygu eu geirfa a strwythurau brawddeg, yn cynnwys geiriau yn benodol i ddisgyblaeth (er enghraifft condensation, tundra, modulation) a geiriau sy’n digwydd mewn testunau ar draws y cwricwlwm (er enghraifft reasoned, decline, integrate, entity),

sy’n tueddu i beidio â digwydd mor aml wrth sgwrsio

- yn nodi testun neu thema testun (print neu weledol) ac yn dangos eu dealltwriaeth o brif syniadau’r testun
- yn defnyddio ystod o strategaethau i ddod o hyd i wybodaeth, dewis a defnyddio gwybodaeth o ystod eang o ffynonellau (er enghraifft darllen agos, anodi, crynhoi, cyfosod, dadansoddi)
- yn defnyddio rhesymu a dod i gasgliad i ddeall testunau, ac ystyried dibynadwyedd yr hyn y maent yn ei ddarllen neu’n ei weld, gan wahaniaethu rhwng ffeithiau, damcaniaethau, barn a rhagfarn
- yn darllen yn werthfawrogol (er enghraifft ystyried pa mor effeithiol y mae testunau yn cyfleu gwybodaeth, syniadau a barn, ac yn ennyn sylw’r darllenydd)
- yn ymateb i’r hyn y maent yn ei ddarllen neu’n ei weld, yn gofyn cwestiynau, gwneud cymariaethau, a mynegi safbwyntiau a ffafriaethau
- yn gwerthuso gwahanol safbwyntiau yn feirniadol i lunio casgliadau ystyriol
- yn deall ac yn archwilio’r modd y gellid dehongli testunau, gan nodi sut maent yn amrywio o ran diben ac effaith
- yn ymateb (ar lafar neu yn ysgrifenedig) yn hyderus i syniadau a gwybodaeth y maent wedi eu darllen, gan ddefnyddio eu medrau darllen datblygedig
- (cyd-destunau cyfrwng Cymraeg) yn defnyddio medrau trawsieithu pan fyddant yn darllen (er enghraifft i esbonio syniadau cymhleth yn Gymraeg ar ôl ymchwilio i erthyglau a ysgrifennwyd yn Saesneg)
- yn defnyddio eu medrau darllen i allu dysgu ar draws y cwricwlwm

**Ysgrifennu**

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae disgyblion

- threbu trwy greu marciau, darlunio symbolau neu ysgrifennu llythrennau a geiriau mewn ystod o gyd-destunau
- yn ffurfio llythrennau, ac yn defnyddio eu gwybodaeth am lythrennau a’r seiniau y maent yn eu cynrychioli, i ysgrifennu geiriau ac ymadroddion
- yn defnyddio ystod o strategaethau i geisio sillafu geiriau dieithr (er enghraifft teuluoedd geiriau, bonion, patrymau llythrennau, morffoleg, gwybodaeth graffig, gwybodaeth ffonemig)
- yn ysgrifennu’n gywir ac yn eglur (er enghraifft, defnyddio ffurfiau safonol iaith a sillafu, yn cynnwys treiglo pan fydd yn briodol yn Gymraeg)
- yn defnyddio ystod o atalnodi yn gywir i amrywio cyflymdra, egluro ystyr, osgoi amwysedd a chreu effeithiau bwriadol
- yn ysgrifennu gan ddefnyddio geirfa ddychmygus, amrywiol a manwl gywir yn gynyddol, ac amrywio strwythurau brawddeg i greu effaith
- yn addasu eu harddull ysgrifennu i weddu i’r gynulleidfa, y diben a’r cyd-destun
- yn ysgrifennu mewn ystod eang o fathau o destun yn annibynnol ac yn estynedig, heb ddibynnu’n ormodol ar gymorth oedolyn neu sgaffaldiau
- yn cynllunio, trefnu a chyflwyno syniadau a gwybodaeth yn briodol (er enghraifft trwy drefnu eu hysgrifennu mewn dilyniant rhesymegol, gan strwythuro eu

hysgrifennu mewn paragraffau)
- yn myfyrio ar, ailddrafftio a golygu eu hysgrifennu i wella ei gynnwys a'i gywirdeb, gan ymateb yn adeiladol i adborth, pan fydd yn briodol
- yn ysgrifennu yn holl feysydd y cwricwlwm a ph'un a ydynt yn ysgrifennu i'r un safon ag y maent yn eu gwaith yn Gymraeg / Saesneg

# MA2 Lles ac agweddau at ddysgu

Wrth ystyried lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu, dylai arolygwyr ystyried:

- pa mor dda y mae disgyblion yn defnyddio eu medrau llythrennedd i gefnogi a gwella eu lles a'u hunan-barch, er enghraifft p'un a ydynt yn gallu siarad ac ysgrifennu am eu teimladau a'u hemosiynau, a dangos empathi a pharch at bobl eraill
- agweddau disgyblion at eu gwaith llythrennedd, er enghraifft p'un a ydynt yn gallu dal ati i ganolbwyntio yn ystod tasgau ysgrifenedig i fireinio a gwella ansawdd eu hysgrifennu
- pa mor dda y mae disgyblion yn cynllunio, yn monitro ac yn gwerthuso datblygiad eu llythrennedd
- p'un a yw disgyblion yn mwynhau darllen ac yn gwneud dewisiadau gwybodus am yr hyn y maent yn ei ddarllen
- pa mor dda y mae disgyblion yn defnyddio hunanreoleiddio os ydynt yn wynebu anawsterau wrth ddarllen ac ysgrifennu yn annibynnol

# MA3 Addysgu a phrofiadau dysgu

Nid oes gan Estyn unrhyw ddulliau y mae'n eu ffafrio ar gyfer addysgu llythrennedd. Dylai athrawon fod yn ystyriol o ddatblygiad llythrennedd disgyblion a strwythuro sesiynau yn y ffordd sydd fwyaf priodol i'r disgyblion gyflawni'r deilliannau dysgu bwriadedig, yn eu barn nhw, a'r amcanion dysgu yr hoffent i'r dysgwyr eu cyflawni.

Dylai arolygwyr werthuso addysgu mewn perthynas â llwyddiant y dysgu a'r cynnydd a wna dysgwyr, ac yng nghyd-destun eu dysgu a'u cynnydd dros gyfnod, nid ar y dulliau a ddefnyddir na'r math o arddull addysgu.

Dylai arolygwyr nodi a yw dulliau yn rhwystro datblygiad medrau disgyblion, er

enghraifft:

- lle mae'r addysgu yn rhy gyfarwyddiadol oherwydd bod gan ddisgyblion amgyffrediad digon da o'r cynnwys neu'r medrau i fynd ymlaen ar eu pennau eu hunain
- defnydd diangen o daflenni gwaith sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n annibynnol neu'n estynedig
- peidio â darparu sgaffaldio digonol yn ddigon hir i ddisgyblion â medrau darllen ac ysgrifennu gwannach, neu
- pan mae disgwyliad y bydd athrawon yn defnyddio dull penodol o gynllunio a chyflwyno gwersi, er nad yw bob amser yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau llythrennedd yn ddigon da

Dylai arolygwyr werthuso p'un a yw'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ac yn gydlynus ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau llythrennedd presennol disgyblion i sicrhau dilyniant wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae addysgu llythrennedd:

- yn darparu modelau rôl iaith cryf ar gyfer disgyblion, sy'n dylanwadu ar ddatblygiad eu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu
- yn bodloni anghenion datblygiadol disgyblion mewn iaith a llythrennedd, er enghraifft trwy beidio â'u cyflwyno i addysgu ffoneg ffurfiol cyn iddynt fod ar gam datblygiadol addas
- yn sicrhau bod disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth briodol o'r hyn y byddant yn ei ddysgu, a sut mae hyn yn cysylltu â gweithgareddau iaith a llythrennedd blaenorol
- yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o sut i lwyddo yn eu dysgu, er enghraifft trwy ddarparu modelau effeithiol o wahanol fathau o ysgrifennu
- yn sgaffaldio datblygiad medrau disgyblion yn briodol
- yn modelu prosesau meddwl i ddatblygu medrau metawybyddol disgyblion, er enghraifft i egluro'r dewisiadau a wna siaradwr wrth gyflwyno dadl
- yn archwilio dealltwriaeth disgyblion trwy holi treiddgar sy'n eu herio i ddatblygu eu hatebion ar lafar ar yr un pryd, er enghraifft trafod achos ac effaith, neu resymu a dadlau
- yn cynorthwyo disgyblion â medrau cyfathrebu gwan i gaffael geirfa a phatrymau brawddeg allweddol ar lafar
- yn helpu disgyblion i ddysgu 'siarad' yn ogystal â dysgu 'trwy siarad', trwy ddatblygu'r amrywiaeth lawn o fedrau gwrando a siarad, fel: dadlau, chwarae rôl, cyfweld, cyflwyno, archwilio
- yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o dafodiaith, priodiaith a chywair fel rhan o gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig
- yn datblygu medrau darllen cynnar disgyblion trwy ymagwedd systematig a

chyson at addysgu ffoneg a geiriau amlder uchel

- yn adeiladu ar fedrau darllen cynnar disgyblion i sicrhau eu bod yn gallu cymhwyso ystod eang o strategaethau darllen pan fyddant yn darllen testun yn annibynnol, er enghraifft sut i ddefnyddio cliwiau i wneud synnwyr o'r hyn y maent yn ei ddarllen
- yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o destun, eu gallu i adalw a defnyddio gwybodaeth yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm, a datblygu medrau darllen uwch, fel cyfosod a gwerthuso
- yn annog agweddau cadarnhaol disgyblion tuag at ddarllen, ac yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu stamina darllen, er enghraifft fel eu bod yn mwynhau darllen testunau hwy a mwy cymhleth ac yn canolbwyntio wrth ddarllen am gyfnodau hir
- yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o ddiben ysgrifennu a'u gallu i ysgrifennu ar gyfer ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd, gan ddewis tôn ac arddull briodol
- yn herio disgyblion i ddatblygu a chynnal eu syniadau yn gydlynus ac yn ddychmygus, ac ailddrafftio a golygu eu hysgrifennu i wella'i ansawdd
- yn datblygu medrau cynllunio, cyfansoddi a thrawsgrifio disgyblion (er enghraifft strwythur a threfniadaeth syniadau, llunio brawddegau, sillafu, llawysgrifen / print digidol ac atalnodi)
- yn datblygu gwybodaeth disgyblion am eirfa fel agwedd bendant ar ddysgu iaith mewn gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu, er enghraifft trwy ddefnyddio geirdarddiad
- yn herio disgyblion i ddatblygu a chymhwyso eu medrau llythrennedd mewn cyd-destunau ystyrlon ar draws y cwricwlwm i'r un safon ag yn eu sesiynau iaith, llythrennedd a chyfathrebu neu Gymraeg / Saesneg

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae staff:

- yn darparu ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd cymunol sy'n amgylcheddau dysgu cyfoethog o ran iaith a llythrennedd
- yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau iaith a llythrennedd trwy ddarpariaeth barhaus ac estynedig dan do ac yn yr awyr agored, yn y cyfnod sylfaen
- yn datblygu gweithgareddau wedi eu hysgogi gan ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen
- yn cynllunio ar gyfer datblygiad eglur medrau gwrando a siarad disgyblion, yn cynnwys cyfleoedd perthnasol i ddisgyblion hŷn gymryd rhan mewn profiadau dysgu sy'n canolbwyntio ar ddatblygu eu gallu i siarad yn hyderus ac yn briodol mewn ystod o gyd-destunau a lleoliadau
- (mewn cyd-destunau cyfrwng Cymraeg) yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau trawsieithu a chyfryngu
- yn cynllunio'n ofalus fel bod datblygiadau mewn un medr, er enghraifft siarad, yn gallu cefnogi ac ychwanegu at y datblygiad mewn medr arall, fel ysgrifennu
- yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion yn gynyddol, yn cynnwys cyfleoedd i wrando ar ddisgyblion eraill yn darllen, a darllen iddyn nhw eu hunain (yn dawel ac ar goedd)
- yn meithrin mwynhad disgyblion o ddarllen trwy ystod eang o gyfryngau, yn cynnwys darllen delweddau (heb destun, neu wedi eu cyfuno â thestun) mewn

llyfrau lluniau, animeiddiadau a ffilmiau

- yn dewis testunau llenyddol ac anllenyddol gyda themâu a geirfa heriol addas, i ennyn diddordeb disgyblion ac ymestyn eu llythrennedd
- yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyd-destunau ysgogol a dilys ar gyfer ysgrifennu, yn cynnwys profiadau dychmygol a phrofiadau go iawn
- yn adeiladu ar wybodaeth bresennol disgyblion am strwythur, trefniadaeth a nodweddion iaith mathau o destun i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd yn eu hysgrifennu
- yn cynorthwyo disgyblion i ddeall ysgrifennu fel proses a darparu cyfleoedd gwerth chweil iddynt feddwl am syniadau, eu cynllunio a'u trefnu ac ailddrafftio a mireinio eu hysgrifennu
- yn nodi'n fanwl gywir y gwendidau ym medrau llythrennedd disgyblion i bennu'r camau nesaf gorau er mwyn iddynt wybod ble i ganolbwyntio eu hymdrechion ar gyfer gwella
- yn cynorthwyo disgyblion i gynllunio, monitro a gwerthuso eu datblygiad llythrennedd
- yn cynnwys disgyblion mewn asesu eu dysgu eu hunain a dysgu eu cyfoedion mewn llythrennedd
- yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn ystod o ymweliadau sy'n ymestyn y cwricwlwm llythrennedd, er enghraifft teithiau i lyfrgelloedd a theatrau
- yn gwneud defnydd da o ymwelwyr ag ysgolion i ennyn diddordeb disgyblion mewn gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu, er enghraifft awduron plant, beirdd ac actorion
- yn defnyddio gweithgareddau allgyrsiol i hyrwyddo a datblygu medrau llythrennedd disgyblion, er enghraifft cymdeithasau trafod a drama, ysgrifennu creadigol a chlybiau llyfrau
- yn addasu gwaith pan fydd disgyblion yn meddu ar fedrau llythrennedd sydd gryn dipyn uwchlaw neu islaw'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran
- yn creu cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd dysgu a phynciau i sicrhau bod y medrau a enillir gan ddisgyblion mewn llythrennedd a gwersi Cymraeg / Saesneg yn cael eu hatgyfnerthu, eu datblygu a'u hymestyn ar draws y cwricwlwm
- yn defnyddio platfformau ac offer digidol yn effeithiol i gefnogi datblygiad medrau llythrennedd disgyblion
- yn datblygu dealltwriaeth ar y cyd o ddilyniant i sicrhau bod asesiadau o lythrennedd disgyblion yn ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy
- yn olrhain ac yn monitro cynnydd disgyblion mewn datblygu eu medrau llythrennedd wrth iddynt symud trwy'r ysgol, yn cynnwys y disgyblion hynny ag anghenion ychwanegol, er enghraifft anghenion addysgol arbennig, disgyblion dan anfantais neu ddisgyblion y mae'r Gymraeg / Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt
- yn defnyddio gwybodaeth a gafwyd o asesiadau i osod targedau clir ar gyfer safonau gwell yn llythrennedd disgyblion

# MA4 Gofal, cymorth ac arweiniad

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda:

- y mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion â medrau llythrennedd gwan neu anawsterau dysgu penodol
- y mae'r ysgol yn gwneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â pha raglenni ymyrraeth i'w defnyddio
- y mae'r ysgol yn defnyddio rhaglenni ymyrraeth i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol
- y mae staff yn olrhain cynnydd disgyblion sy'n cael cymorth ychwanegol ar gyfer llythrennedd mewn perthynas â'r targedau yn eu cynlluniau unigol
- y caiff gwybodaeth am fedrau a chynnydd disgyblion mewn llythrennedd ei rhannu rhwng staff
- y mae staff yn addasu strategaethau addysgu a dysgu ar gyfer disgyblion sy'n derbyn ymyrraeth ac yn darparu gwaith sy'n gweddu'n dda i anghenion llythrennedd disgyblion
- y defnyddir asesu i lywio penderfyniadau ynglŷn â ph'un a yw disgyblion yn parhau mewn rhaglenni cymorth neu nid oes angen gwaith ymyrraeth arnynt mwyach
- y mae'r ysgol yn datblygu gallu rhieni i gefnogi datblygiad llythrennedd eu plant, er enghraifft trwy ddarparu gwybodaeth am y cwricwlwm neu'r gweithdai ar gyfer rhieni sy'n eu helpu i gynorthwyo eu plant
- y mae'r ysgol yn defnyddio partneriaethau ag ysgolion neu asiantaethau eraill i ddarparu cymorth llythrennedd effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r rhai y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt

Gellid defnyddio **Dogfen C** fel sbardun wrth ystyried effaith rhaglenni ymyrraeth llythrennedd ar ddysgu a chynnydd disgyblion.

# MA5 Arweinyddiaeth a rheolaeth

Gallai arolygwyr gynnal trafodaethau gydag arweinwyr a rheolwyr i ystyried pa mor dda y maent yn dechrau a chefnogi dulliau effeithiol o ddatblygu llythrennedd disgyblion, a sut maent yn defnyddio canfyddiadau hunanwerthuso, ynghyd â gwybodaeth arall, i nodi a mynd i'r afael â blaenoriaethau gwella.

Dylai arolygwyr ystyried:

- p'un a yw'r pennaeth a'r uwch arweinwyr yn wybodus am gryfderau a materion wrth addysgu a dysgu llythrennedd
- p'un a yw arweinwyr ysgolion yn darparu arweinyddiaeth gref, ac yn cyfleu i ddysgwyr, staff, llywodraethwyr, rhieni ac aelodau eraill o gymuned yr ysgol, ddisgwyliadau addas o uchel am gyflawniadau disgyblion mewn llythrennedd
- p'un a oes gan yr ysgol strwythurau arwain priodol ar waith i gefnogi cydlynu a

datblygu ei darpariaeth ar gyfer llythrennedd, ac a gaiff y strategaeth ei deall yn glir

- pa mor dda y mae'r ysgol yn cyflymu cynnydd disgyblion o'u mannau cychwyn, sut mae'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn llythrennedd, o ganlyniad i anfantais, ac yn datblygu medrau disgyblion mwy abl
- p'un a yw'r ysgol yn cynnwys rhieni a'r gymuned ehangach mewn datblygu llythrennedd disgyblion
- pa mor dda y mae arweinwyr yn datblygu diwylliant cydweithredol lle mae staff yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod pawb yn gallu defnyddio gwybodaeth gyfunol yr ysgol am lythrennedd, ac elwa arni
- a yw arweinwyr yn defnyddio staff â gwybodaeth arbenigol i rannu eu harbenigedd yn eu hysgol eu hunain a gydag eraill
- pa mor dda y mae arweinwyr yn gweithio gyda staff i ddefnyddio'r corff cynyddol o dystiolaeth ac ymchwil ar lythrennedd i lywio penderfyniadau a chynlluniau ysgol gyfan
- p'un a yw adolygiadau a gwerthusiadau'r ysgol yn nodi'n fanwl gywir agweddau ar addysgu a darpariaeth y mae angen eu gwella, ac yn galluogi staff i rannu'r arfer fwyaf llwyddiannus ar draws yr ysgol
- a yw arweinwyr yn targedu adnoddau a grantiau'r ysgol yn ofalus, ac yn gwerthuso effaith yr addysgu ar safonau llythrennedd a'u cynnydd ynddo yn drylwyr
- p'un a yw arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon agos ar agweddau ar addysgu iaith sy'n benodol i bwnc yn eu gweithgareddau monitro, ac yn nodi anghenion dysgu proffesiynol staff yn fanwl gywir
- p'un a yw cyfleoedd dysgu proffesiynol yn llwyddiannus o ran cynorthwyo staff i ddatblygu eu gwybodaeth bwnc a'u medrau addysgu mewn llythrennedd, a sut mae hyn yn troi'n arfer ysgol gyfan effeithiol

# Dogfen A: Cwestiynau enghreifftiol ar gyfer gwrando ar ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen

## Darllen

**Disgyblion iau yn y cyfnod sylfaen**

- Am beth mae eich llyfr?
- Beth sy'n digwydd yn y lluniau?
- Beth ydych chi'n meddwl fydd yn digwydd nesaf?
- Sut ydych chi'n meddwl fydd y stori'n gorffen?
- Beth ydych chi'n ei wneud os nad ydych chi'n gwybod gair?
- A ydych chi'n gwybod enw'r llythyren hon?
- A ydych chi'n gwybod pa sŵn/synau mae'r llythyren hon yn ei wneud/eu gwneud?
- A ydych chi'n mwynhau darllen?
- Pwy sy'n eich helpu chi gyda'ch darllen?
- A oes unrhyw un yn darllen i chi?

**Disgyblion hŷn yn y cyfnod sylfaen**

- Ai chi ddewisodd y llyfr hwn?
- A oeddech chi'n gwybod unrhyw beth am y llyfr cyn i chi ddechrau ei ddarllen?
- A ydych chi'n mwynhau darllen?
- A oes gan yr ysgol y mathau o lyfrau rydych chi'n hoffi eu darllen?
- A ydych chi'n darllen llyfrau gwybodaeth?
- Pa mor aml ydych chi'n darllen?
- A ydych chi'n darllen gartref?
- A yw oedolion yn darllen i chi yn yr ysgol?  A ydych chi'n mwynhau hynny?
- Pa gyngor y mae eich athro yn ei roi i chi am eich darllen?

**Testun ffuglen**

- Beth sydd wedi digwydd hyd yma yn eich llyfr?
- Beth ydych chi'n meddwl fydd yn digwydd nesaf?  Beth sy'n gwneud i chi feddwl hynny?
- Dywedwch wrthyf i am eich hoff gymeriad.  Pam ydych chi'n hoffi'r cymeriad hwn?
- Beth yw eich hoff ran o'r llyfr a pham?
- Sut ydych chi'n meddwl mae'r awdur eisiau i ni deimlo ar hyn o bryd yn y llyfr?
- Beth ydych chi'n gwneud os dewch chi ar draws gair nad ydych chi wedi ei weld o'r

blaen?

**Testun ffeithiol**

- Am beth mae'r llyfr?
- A allwch chi esbonio i mi sut galla' i ddod o hyd i wybodaeth am y llyfr hwn?
- Pryd fydden i'n defnyddio'r llyfr hwn, efallai?
- Beth ydych chi'n gwneud os dewch chi ar draws gair nad ydych chi wedi ei weld o'r blaen?
- Pa ran o'r llyfr ydych chi'n ei gweld yn fwyaf diddorol, a pham?

**Pan fydd disgyblion yn darllen ar goedd, gallech chi ofyn:**

- A ydych chi wedi dod ar draws y gair hwn o'r blaen?
- A ydych chi'n gwybod beth mae'r gair yn ei olygu, neu a ydych chi'n gallu datrys beth mae'r gair yn ei olygu yn y frawddeg hon?
- Pa air arall allai'r awdur fod wedi ei ddefnyddio sy'n golygu'r un math o beth?
- Pam wnaethoch chi newid eich llais pan ddarllenoch chi'r rhan honno o'r frawddeg?

# Ysgrifennu

**Disgyblion iau yn y cyfnod sylfaen**

- A ydych chi'n hoffi ysgrifennu?
- Am beth rydych chi'n hoffi ysgrifennu?
- A ydych chi'n gallu ysgrifennu eich enw, a beth ydych chi'n hoffi ei wneud yn yr ysgol, os bydda' i'n eich helpu chi?
- Beth ydych chi'n ei wneud os na allwch chi sillafu gair?
- A ydych chi'n ysgrifennu ar liniadur neu lechen?
- A allwch chi ddangos ychydig o'ch ysgrifennu i mi?
- A yw oedolion yn eich helpu chi â'ch ysgrifennu? Sut maen nhw'n eich helpu chi?
- Ble ydych chi'n gwneud eich ysgrifennu?

**Disgyblion hŷn yn y cyfnod sylfaen**

- Pa fath o ysgrifennu ydych chi'n ei hoffi orau – ysgrifennu storïau, cerddi neu ysgrifennu gwybodaeth?
- Beth sy'n hawdd am ysgrifennu, yn eich barn chi?
- Beth sy'n anodd am ysgrifennu, yn eich barn chi?
- A ydych chi'n cynllunio eich ysgrifennu? A ydych chi'n cynllunio gyda ffrind neu mewn grŵp weithiau?
- Beth ydych chi'n ei wneud os na allwch chi sillafu gair?
- Dywedwch wrthyf sut gwnaethoch chi ysgrifennu'r stori hon/cyfarwyddiadau hyn,

ac ati?

- A allwch chi ddangos darn o'ch ysgrifennu i mi rydych chi'n meddwl ei fod yn dda?
- Ydych chi'n mynd yn ôl at eich gwaith o gwbl i geisio gwneud eich ysgrifennu yn well?
- Sut ydych chi'n gwybod pa atalnodi i'w ddefnyddio?
- Sut ydych chi'n gwybod sut i osod eich ysgrifennu? Pam ydych chi wedi ysgrifennu hyn mewn rhestr, ac ati?

# Dogfen B: Cwestiynau enghreifftiol ar gyfer gwrando ar ddisgyblion yng nghyfnodau allweddol 2 a 3

## Darllen

- Ydych chi'n mwynhau darllen?
- A oes gan eich ysgol y mathau o lyfrau rydych chi'n hoffi eu darllen? Os na, pa fathau o destunau fyddech chi'n hoffi cael mwy ohonyn nhw? A ydych chi'n ymweld â llyfrgell yr ysgol?
- Sut ydych chi'n dod i wybod am awduron neu lyfrau newydd y gallech chi fod eisiau eu darllen?
- Beth yw eich hoff lyfr rydych chi wedi ei ddarllen yn yr ysgol eleni? A yw eich athrawon yn argymell llyfrau maen nhw'n meddwl y byddech chi'n eu mwynhau o bosibl?
- Pa gyngor y mae eich athro yn ei roi i chi am eich darllen?
- A yw oedolion yn darllen i chi yn yr ysgol? A ydych chi'n mwynhau hynny?
- A ydych chi'n mynd â llyfrau adref? Beth ydych chi'n ei ddarllen gartref? Pa mor aml ydych chi'n darllen gartref?
- Ai chi ddewisodd y llyfr hwn?
- A oeddech chi'n gwybod unrhyw beth am y llyfr cyn i chi ddechrau ei ddarllen?
- A allwch chi esbonio sut mae testunau ffuglen a ffeithiol yn wahanol?

**Testun ffuglen:**

- Beth sydd wedi digwydd hyd yma yn eich llyfr? Dywedwch wrthyf am y cymeriad/plot, ac ati?

**Pan fydd disgyblion yn darllen ar goedd, gallech chi ofyn:**

- Pa strategaethau ydych chi'n eu defnyddio os nad ydych yn gwybod gair neu os na fyddwch chi'n gwybod mwyach beth sy'n digwydd yn y stori wrth i chi ddarllen?
- A ydych chi wedi dod ar draws y gair hwn o'r blaen? A ydych chi'n gwybod beth mae'r gair yn ei olygu, neu a allwch chi ddatrys beth mae'r gair yn ei olygu yn y frawddeg hon?
- Pa air arall allai'r awdur fod wedi ei ddefnyddio sy'n golygu'r un math o beth?
- Pam wnaethoch chi newid eich llais pan ddarllenoch chi'r rhan honno o'r llyfr?

**Testun ffeithiol:**

- A allwch chi ddangos i mi sut i ddod o hyd i…yn y cyfeirlyfr hwn?

- Dywedwch wrthyf sut rydych chi'n chwilio i ddod o hyd i wybodaeth. Ar gyfer beth mae mynegeion, tudalennau cynnwys, geirfaoedd a hyperddolenni yn cael eu defnyddio?
- Pam mae gan yr adran hon is-benawdau a chapsiynau?
- Os bydda' i'n gofyn i chi frasddarllen y dudalen hon, beth fydda' i'n gofyn i chi wneud? A allwch chi frasddarllen y dudalen hon a dweud wrthyf am beth mae'n sôn? Sut mae brasddarllen yn wahanol i lithrddarllen?
- A ydych chi'n defnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer ymchwilio?
- Os ydych chi'n defnyddio'r rhyngrwyd i ddod o hyd i wybodaeth i ysgrifennu amdani, sut ydych chi'n mynd ati i wneud hyn? A ydych chi'n gwneud nodiadau? A ydych chi'n gallu dangos unrhyw enghreifftiau o'ch nodiadau i mi? A ydych chi'n credu popeth rydych chi'n ei ddarllen mewn llyfr gwybodaeth neu ar y rhyngrwyd, pan fyddwch chi'n ymchwilio i'ch testun?
- A allwch chi feddwl am adeg pan roedd rhaid i chi grynhoi rhywbeth rydych chi wedi ei ddarllen? Beth am gyfosod?

**Pan fydd disgyblion yn darllen ar goedd, gallech chi ofyn:**

- Pa strategaethau ydych chi'n eu defnyddio os nad ydych chi'n gwybod gair neu os na fyddwch chi'n gwybod mwyach beth sy'n digwydd yn y stori wrth i chi ddarllen llyfr gwybodaeth?
- A ydych chi wedi dod ar draws y gair hwn o'r blaen? A ydych chi'n gwybod beth mae'r gair yn ei olygu, neu a allwch chi ddatrys beth mae'r gair yn ei olygu yn y frawddeg hon?
- Pa air arall allai'r awdur fod wedi ei ddefnyddio sy'n golygu'r un math o beth?
- Sut mae darllen testun ffeithiol yn wahanol i ddarllen llyfr ffuglen?
-
- A oes gennych chi hoff gymeriad/hoff ran o'r llyfr? Pam ydych chi'n hoffi'r cymeriad hwn / rhan hon o'r llyfr?
- Beth mae'r awdur yn ei olygu wrth yr ymadrodd…?
- Pa eiriau ydych chi'n meddwl oedd y rhai mwyaf effeithiol i ddisgrifio x? Pam ydych chi'n meddwl y dewisodd yr awdur y rhain? Sut ydych chi'n meddwl y mae'r awdur eisiau i ni deimlo ar yr adeg hon yn y llyfr?
- A ydych chi'n meddwl y gallai x ddigwydd go iawn?
- Ym mha ffordd arall mae awduron yn gwneud i ni feddwl am gymeriadau mewn ffordd benodol?
- Pa fedrau darllen allai fod angen i chi eu defnyddio i ddeall hwyliau neu ymddygiad cymeriad?
- A allwch chi esbonio pa fath o berson yw x?
- A ydych chi wedi darllen unrhyw lyfrau / cerddi / dramâu eraill gan yr awdur hwn?
- A ydych chi wedi darllen llyfrau fel hyn wedi eu hysgrifennu gan rywun arall?
- A ydych chi wedi darllen unrhyw farddoniaeth neu ddrama yn ddiweddar? A allwch chi ddweud unrhyw beth i mi amdano?

# Ysgrifennu

- A ydych chi'n hoffi ysgrifennu?
- Am beth rydych chi'n hoffi ysgrifennu?
- Beth ydych chi'n ei wneud os na allwch chi sillafu gair?
- Pa fath o ysgrifennu ydych chi'n ei hoffi orau?
- Beth sy'n hawdd am ysgrifennu, yn eich barn chi?
- Beth sy'n anodd am ysgrifennu, yn eich barn chi?
- A ydych chi'n cynllunio eich ysgrifennu? Pa dechnegau ydych chi'n eu defnyddio i gynllunio? Am beth ydych chi'n meddwl?
- Ydych chi'n ailddrafftio neu'n golygu eich ysgrifennu? Pam ydych chi'n gwneud hyn?
- Sut ydych chi'n gwybod pa atalnodi i'w ddefnyddio?
- Dywedwch wrthyf sut aethoch chi ati i ysgrifennu'r stori hon/adroddiad/llythyr perswadiol hwn, ac ati. A gawsoch chi unrhyw gymorth â hyn?
- Pam mae angen i chi ddeall diben eich ysgrifennu?
- Pam mae'n bwysig gwybod pwy fydd yn darllen eich gwaith ysgrifennu?
- A allwch chi ddweud wrthyf sut byddech chi'n gosod adroddiad/esboniad/ stori, ac ati?
- Beth sy'n helpu i chi fod yn llwyddiannus pan fyddwch chi'n ysgrifennu?
- A ydych chi'n cael dewis am beth i ysgrifennu neu ba fath o destun rydych chi'n ei ysgrifennu?
- A ydych chi'n defnyddio llechi neu liniaduron i ysgrifennu?

# Dogfen C: Sbardunau i’w hystyried wrth werthuso effaith rhaglenni ymyrraeth llythrennedd

- Sut mae’r ysgol yn nodi’r disgyblion sydd angen cymorth i wella eu medrau llythrennedd?
- Sut mae’r ysgol yn dewis y rhaglenni ymyrraeth y mae’n eu defnyddio?
- A yw rhaglenni ymyrraeth yn cefnogi ystod lawn y medrau llythrennedd, yn cynnwys gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu?
- Pa hyfforddiant y mae cynorthwywyr addysgu sy’n cyflwyno rhaglenni ymyrraeth yn ei gael?
- Beth yw fformat y sesiynau, a pha mor aml y cynhelir y sesiynau?
- Pa mor effeithiol yw strategaethau ymyrraeth o ran helpu disgyblion i wneud cynnydd o’u mannau cychwyn?
- Sut caiff cynnydd disgyblion ar y rhaglenni ymyrraeth ei gyfleu i reolwyr ac aelodau staff eraill?
- Sut mae’r ysgol yn sicrhau bod athrawon ystafell ddosbarth yn ymwybodol o’r strategaethau addysgu a dysgu a’r adnoddau a ddefnyddir yn y rhaglenni ymyrraeth?
- Pa strategaethau y mae’r ysgol yn eu defnyddio i wneud yn siŵr eu bod yn defnyddio strategaethau ac adnoddau tebyg yn eu gwersi?
- Sut mae’r ysgol yn gwerthuso effeithiolrwydd ei hymyriadau i gefnogi llythrennedd disgyblion?
- A oes gan yr ysgol feini prawf ymadael priodol i bennu pryd mae disgyblion yn gadael rhaglenni ymyrraeth, a sut maent yn parhau i’w cynorthwyo a monitro eu cynnydd dros gyfnod?